

Y Gymraeg

03 Mehefin 2013

Cais am Wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Mai, pan wnaethoch ofyn,

- 1. Of the 60 elected members, please state how many are fluent in written Welsh?*
- 2. Please provide me with the number of non-elected officials employed in carrying out [*Assembly business]; of that, how many are fluent in written Welsh?*
- 3. When the Assembly meets in full session; what is the language used; and, how many Members use a translation service?*
- 4. When Members meet in Committee, what is the language used; and, how many Members use a translation service?*

Atebaf bob cwestiwn yn unigol:

- 1. Of the 60 elected members, please state how many are fluent in written Welsh?*

Nid yw Comisiwn y Cynulliad yn casglu nac yn cadw'r wybodaeth hon. Mae'r Comisiwn yn darparu cyfleusterau dwyieithog llawn i gefnogi gwaith y Cynulliad, felly gall unrhyw Aelod weithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae cofnodion Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgor yn dangos hyn a gellir eu gweld drwy'r linciau canlynol ar wefan y Cynulliad.

Cofnod trafodion Cyfarfodydd Llawn

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-chamber-fourth-assembly-rop.htm>

Gellir gweld trafodion pwyllgorau ar y tudalennau o dan bob pwyllgor, sydd wedi'u rhestru ar y linc hwn

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgListCommittees.aspx?bcr=1>

- 2. Please provide me with the number of non-elected officials employed in carrying out [*Assembly business]; of that, how many are fluent in written Welsh?*

Nid yw Comisiwn y Cynulliad yn casglu nac yn cadw'r wybodaeth hon.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8635
E-bost: Buddug.Saer@cymru.gov.uk

3. *When the Assembly meets in full session; what is the language used; and, how many Members use a translation service?*
4. *When Members meet in Committee, what is the language used; and, how many Members use a translation service?*

Fel y soniwyd uchod – gall yr Aelodau weithio'n Gymraeg neu Saesneg ac ni chesglir data ynghylch pa iaith a ddefnyddir. Bydd trawsgrifiadau Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau (mae'r linciau ar gael mewn ymateb i gwestiwn 1 uchod) bob amser yn cyhoeddi testun gair am air ar y chwith (hon yw'r iaith a siaradwyd yn ystod y cyfarfod) a'r testun a gyfieithwyd ar yr ochr dde.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

Buddug Saer
Swyddog Rhaglenni
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn <http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm>. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Buddug Saer
Swyddog Rhaglenni
Cynulliad Cenedlaethol Cymru